- Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario y pen
- Prif Incwm y pen
- Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen
- Cyfradd cyflogaeth.

Ni ddylid ystyried y rhain yn ddangosyddion y gall polisïau Llywodraeth Cymru ar eu pen eu hunain ddylanwadu'n uniongyrchol, yn amlwg neu'n sylweddol arnynt, yn enwedig yn y tymor byr.

Defnyddir ystod eang o ddangosyddion i fesur cyflawniad yn ôl meysydd gweithredu'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ac mae'r rhain yn seiliedig ar gyfuniad o weithgarwch a chanlyniadau. Cawsant eu datblygu i ateb y gofynion i ddarparu cyfres o ddangosyddion craidd allweddol i'w defnyddio ym mhob maes gweithredu, i gydymffurfio â rheoliadau WEFO pan ddefnyddir Cyllid Ewropeaidd ac i ddarparu dangosyddion lleol ar gyfer meysydd busnes unigol.

Fel rhan o broses flynyddol cynllunio busnes, mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn mynnu bod meysydd busnes yn cyflwyno targedau llinell sylfaen yn erbyn y dangosyddion pan fydd y cyllidebau wedi'u cytuno. Cytunir ar y targedau ar gyfer 2014/15 yn unol â'r cynlluniau manwl sydd ar y gweill ar y cam hwn o'r cylch cynllunio busnes. Cytunwyd ar dargedau ar gyfer 2013/14 ac mae'r tabl isod yn nodi crynodeb yn ôl meysydd cyflawni allweddol.

Targedau Allbynnau Allweddol yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth 2013/14*

	Swyddi a grëwyd	Swyddi a ddiogelwyd	Buddsoddiad a ddenwyd (£000)
Sectorau	2,777	1,921	106,612
Entrepreneuriaeth	4,000	775	0
Gwyddoniaeth ac Arloesi	156	2	0
Cyllid sydd ar gael i Fusnesau, yn cynnwys SIF, Cyllid Cymru	4,272	2,342	162,342
Cronfa Twf Economaidd Cymru (WEGF) 2	1,300	1,000	11,738
Eraill	216	0	19,155
Cyfanswm	12,721	6,040	299,847

* Dylid nodi bod y ffigurau hyn wedi'u cytuno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol er mwyn darparu'r llinellau sylfaen ar gyfer cefnogi cynllunio busnes. Maent yn agored i gael eu newid yn ystod y flwyddyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau a chaiff ail ragolygon eu llunio yn unol ag unrhyw newidiadau.

Nod yr Adran hefyd yw helpu i greu 13,000 o swyddi yn 2013/14 a chyhoeddir adroddiad ar wahân ar allbynnau Ardaloedd Menter ym mis Rhagfyr 2013.

3.3 Datblygu Polisi

Ein hallwedd i sicrhau twf yw gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau cymaint o adnoddau a gwybodaeth â phosibl a chyflawni nodau polisi. Mae nifer o bolisiâu'n drawsbynciol ac yn gydweithredol, a'r egwyddorion wedi'u hymgorffori ym mlaenoriaethau strategol y meysydd busnes perthnasol a nodwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb. Tynnwyd sylw at y datblygiadau polisi hyn hefyd fel rhan o'r gwaith cwrpasu ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE.

Dinas-ranbarthau

Noda'r Adroddiad ar y Dinas-ranbarthau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012 dair mantais strategol: marchnadoedd llafur mwy

effeithlon, marchnadoedd mwy o faint ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a chyfnewid gwybodaeth, syniadau ac arloesedd ar raddfa ehangach. Gwnaed gwaith sylweddol, yn fewnol gan Lywodraeth Cymru, ac yn allanol, gan fod cefnogaeth yn hollbwysig i lwyddiant y Dinas-ranbarthau. Ni cheir cyllideb ddynodedig ar gyfer y Dinas-ranbarthau gan fod cyflawni a monitro wedi'u hymgorffori yn y rhaglenni unigol.

Ceir cysylltiadau eglur rhwng y Dinas-ranbarthau a dulliau eraill sy'n cael eu datblygu megis yr Ardaloedd Menter sy'n ceisio denu buddsoddwyr a chreu swyddi. Mae trafndiaeth gyhoeddus yn ganolog i lwyddiant y dinas-ranbarthau.

Ardrethi Busnes

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio ardrethi busnes fel ysgogiad i gefnogi datblygiad a thwf economaidd. Nod Cynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter Cymru sy'n weithredol rhwng 2012/13 a 2015/16 yw sicrhau manteision drwy dwf economaidd a chreu swyddi.

Bydd y cynlluniau newydd, Agored i Fusnes a Datblygiadau Newydd yn gymhellant pellach i fusnesau. Mae disgwyl i'r cynllun Datblygiadau Newydd gostio tua £2.8m a'i nod yw ysgogi adeiladu a datblygiadau newydd drwy ymestyn y cyfnod eithrio rhag ardrethi eiddo gwag i 18 mis. Bydd y cynllun yn weithredol hyd at 30 Medi 2016. Amcangyfrifir y bydd y cynllun Agored i Fusnes yn costio £2.5m a'i nod yw dod ag eiddo a fu'n wag am gyfnod hir yn ôl i ddefnydd drwy gynnig gostyngiad o 50% ar ardrethi busnes eiddo cymwys hyd at 12 mis wedi'r dyddiad meddiannu. Bydd y cynllun yn weithredol hyd at 31 Mawrth 2015.

Wrth asesu gwerth am arian, bydd y cynlluniau ardrethi busnes yn cael eu monitro yn ôl nifer y mentrau sy'n derbyn rhyddhad ardrethi; y math o fusnesau a'r swyddi cysylltiedig, a'r safleoedd sy'n cael eu hadnewyddu neu eu creu. Caiff y mentrau ardrethi busnes eu cefnogi â £4m o gyllid yn 2014/15.

Cefnogwyd busnesau canol tref drwy ddarparu canllawiau mwy eglur a chyllid i gefnogi Ardaloedd Gwella Busnes. Mae hyn wedi cynorthwyo elusennau a mentrau cymdeithasol ar y stryd fawr.

Hefyd, cafodd Llywodraeth Cymru lwyddiant yn lobbio Llywodraeth y DU i ymestyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a gwneud newidiadau i Ardrethi Eiddo Gwag.

Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol

Mae Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru yn mynd i gyhoeddi adroddiad yn yr hydref. Bydd unrhyw oblygiadau o ran adnoddau yn cael eu hystyried yn unol â'r argymhellion.

Gwella Cyllid sydd ar gael i Fusnesau

Mae'r Adran yn parhau i weithio'n agos gyda'r banciau i sicrhau bod y cyllid busnes sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio, lle bo'n bosibl, i bontio'r bwlch rhwng benthyciadau banc ac anghenion cyllido Busnesau Bach a Chanolig hyfyw sy'n tyfu yng Nghymru. Trwy Cyllid Cymru, sefydlwyd nifer o gronfeydd eisoes i helpu busnesau i ddod o hyd i arian nad yw ar gael yn hawdd ar y stryd fawr. Mae'r rhain yn cynnwys Cronfa BBaChau Cymru, Cronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau, Cronfa Datblygu Eiddo, Cronfa JEREMIE Cymru a Chronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru. Gyda'i gilydd, buddsoddodd y gronfeydd hyn dros £31m mewn Busnesau yng Nghymru yn 2012/13 a rhagwelir y bydd £34.1m wedi'i fuddsoddi yn 2013/14. Mantais fawr y rhan fwyaf o'r gronfeydd hyn yw'r ffaith eu bod yn darparu enillion y gellir eu haildefnyddio i gefnogi buddsoddi mewn busnesau ledled Cymru yn y dyfodol. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cynnwys cyllid trafodion ariannol ychwanegol o £12m yn 2014/15 i gefnogi gronfeydd buddsoddi newydd yn Cyllid Cymru sydd ar hyn o bryd yn cael eu datblygu.

Archwiliodd yr Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau, a gynhaliwyd gan Dylan Jones Evans, i ba raddau y mae banciau'r Stryd Fawr yn diwallu anghenion cyllidol BBaChau Cymru. Bydd ail ran yr adolygiad yn edrych ar ffynonellau cyllid amgen ar gyfer busnesau Cymru, a BBaChau yn arbennig. Mae'n adolygiad pwysig a bydd yr argymhellion yn cael eu hystyried ymhellach wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol a pharhau i ymateb i anghenion y gymuned fusnes.

Ardaloedd Menter

Mae gweithgarwch busnes a buddsoddi yn y saith Ardal Fenter yn arwydd marchnad pwerus ar gyfer buddsoddi pellach. Mae'r gyllideb o £13m yn cynnwys £9m i gefnogi datblygiad y seilwaith a chymhellion i gyflawni'r blaenoriaethau gwahanol yn null y sectorau o sicrhau swyddi a thwf parhaus i'r dyfodol. Caiff cynigion cyfalaf eu cefnogi gan achosion busnes ac mae cyfleoedd i ysgogi cyllid ychwanegol bob amser yn rhan o'r gwerthusiad. Cyhoeddir adroddiad yn manylu ar wybodaeth am berfformiad a'r allbynnau sy'n gysylltiedig â'r Ardaloedd Menter ddiwedd y flwyddyn.

Arloesi Cymru

Fel strategaeth yn hytrach na rhaglen, nid oes gan Arloesi Cymru gyllideb wedi'i neilltuo. Mae'r egwyddorion cyflawni yn llywio ac yn blaenoriaethu cyllidebau'r portffolios presennol. Mae strategaeth Arloesi Cymru yn cynnwys cyfres o argymhellion a luniwyd i gynyddu'r llif o gyllid ymchwil, datblygu ac arloesi yn y DU ac Ewrop o ffynonellau yn y DU ac Ewrop.

Bu'r strategaeth yn bwysig ar gyfer blaenoriaethu gofynion ychwanegol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ar gyfer rhaglenni newydd.

Bydd y cylch newydd o Gronfeydd Strwythurol yn gyfle mawr i gefnogi'r gweithgareddau newydd hyn. Ni cheir cyllideb ddynodedig gan fod cyflawni a monitro wedi'u hymgorffori yn y rhaglenni unigol.

Ardaloedd Twf Lleol

Mae datblygiad ardaloedd twf lleol yn ffactor pwysig yng nghynaliadwyedd economaidd trefi a chymunedau gwledig fel model mwy priodol nag Ardaloedd Menter. Yn 2014/15, dyrannwyd £0.1m i gefnogi prosiectau a grwpiau rhanddeiliaid i archwilio'r potensial am opsiynau polisi i ysgogi a chefnogi swyddi, twf economaidd a chynnig cyfle i brofi gwahanol fathau o ymyriadau. Bydd hyn yn cychwyn ym Mhowys ac yn cael ei ymestyn i Ddyffryn Teifi. Er enghraifft, mae gweithredu Cyflymu Cymru a ffordd osgoi A483/A489 y Drenewydd yn ymyriadau cefnogol allweddol ym Mhowys. Caiff yr argymhellion terfynol eu gwerthuso'n llawn a'u hadrodd yn unol â blaenoriaethau economaidd.

3.4 Gwariant Ataliol

Fel y nodwyd uchod, mae'r Gyllideb Ddrafft yn rhoi blaenoriaeth amlwg i gyflymu adferiad economaidd, creu cyfleoedd cyflogaeth a sefydlu'r sylfeini ar gyfer hyrwyddo twf economaidd a chymunedau cynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'r gyllideb gyfan ar gyfer yr Economi a Gwyddoniaeth yn cefnogi ymyrraeth wedi'i hanelu at dwf yn yr economi er mwyn cynyddu ffyniant. O ran gwariant ataliol, mae canlyniadau cadarnhaol i hyn o ran iechyd a heriau cymdeithasol ac mae'n helpu i greu cymdeithas decach a mwy cyfartal.

Mae cyflogaeth yn cynnig cryn dipyn o ddiogelwch rhag tloidi i unigolion a theuluoedd. Rydym yn gweithio i drechu tloidi a bod heb waith drwy hybu a chefnogi'r gwaith o gynnal a chreu cyflogaeth ledled Cymru. Mae'r gyllideb Wyddoniaeth ac Arloesi yn bwysig i gefnogi'r gwelliant mewn addysg, hyfforddiant ac ymchwil wrth ymladd diweithdra.

3.5 Darpariaeth ar gyfer y Ddeddfwriaeth

Mae ein cyfraniad i'r ddeddfwriaeth drawsbynciol yn cefnogi'r amodau a all greu swyddi, twf a chyfoeth yn economi Cymru. Mae ystyried buddiannau busnes yn un o ddyletswyddau statudol Deddf Llywodraeth Cymru. Mae'r Adran yn parhau i weithio ar y cyd â'r holl randdeiliaid i sicrhau bod anghenion busnes ac economi Cymru wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn y ddeddfwriaeth arfaethedig:

- Bil Cynllunio
- Bil Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus
- Bil Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r adnoddau ariannol yn ddigon i gynnwys Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y cynigion deddfwriaethol a pholisi.

4.0 YR ECONOMI A GWYDDONIAETH - CYLLIDO MEYSYDD Y RHAGLENNI GWARIANT

Mae cyfanswm y gyllideb arfaethedig ar gyfer yr Economi a Gwyddoniaeth yn 2014/15 wedi cynyddu £18.704m o gymharu â Chyllideb Atodol 2013/14 (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol).

Mad hyn yn cynnwys lleihad o £3.296m yn y gyllideb adnoddau o ganlyniad i ostyngiadau referniw a chynnydd o £22m i'r cyllidebau cyfalaf, fel y gwelir yn y tabl isod.

	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2014/15 Newidiadau £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000	2015/16 Newidiadau £'000
Referniw	99,569	96,273	(3,296)	94,658	(4,911)
Heb fod yn Arian Parod	1,309	1,309	0	1,309	0
Cyfalaf	96,647	118,647	22,000	110,147	13,500
Cyfanswm	197,525	216,229	18,704	206,114	8,589

4.1 Sectorau a Busnes

Maes y Rhaglen Wariant	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Sectorau a Busnes	Referniw	51,089	(24)	51,065	48,985
	Cyfalaf	56,519	21,625	78,144	88,633
	CYFANSWM	107,608	21,601	129,209	137,618

Mae cyfanswm y gyllideb o £129.209m yn 2014/15 yn darparu cyllid ar gyfer y Sectorau, y Gronfa Fuddsoddi Sengl (SIF) etifeddol, Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Fusnes, Masnach a Mewnfuddsoddi ac Ardaloedd Menter. Ceir lleihad o £0.024m yn y gyllideb referniw yn sgil nifer o newidiadau cynyddrannol rhwng blynyddoedd a symudiadau yn y meysydd cyllidebol yn ystod y flwyddyn i gyd-fynd ag ymrwymadau. Ceir cynnydd net o £21.625m yn y gyllideb gyfalaf sy'n adlewyrchu dyraniadau ychwanegol o £32m o gronfeydd canolog a'r cyllid trafodion ariannol a wrthbwysir gan

ostyngiad o £10.375m mewn ymrwymadau cyfalaf ar gyfer SIF etifeddol.

Mae cyllidebau'r Sectorau a Busnes yn allweddol i allu cyflawni yn erbyn meysydd y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy, trechu tlodi, ac addysg a chyfle cyfartal.

4.2 SIF etifeddol

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
SIF etifeddol	Refeniw	2,360	(657)	1,703	1,703
	Cyfalaf	20,700	(10,375)	10,325	10,325
	CYFANSWM	23,060	(11,032)	12,028	12,028

Mae'r gyllideb hon yn cefnogi ymrwymadau contract yr Adran yn y cynlluniau SIF/RSA etifeddol i anrhydeddu cynigion grant i gwmnïau yng Nghymru cyn belled â bod yr amodau a'r targedau ar gyfer twf a swyddi wedi'u bodloni. Mae'r lleihad o £11.032m yn adlewyrchu'r lleihad yn lefel yr ymrwymiad wrth i brosiectau gael eu cwblhau.

4.3 Sectorau

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Sectorau	Refeniw	34,206	2,058	36,264	34,386
	Cyfalaf	35,819	32,000	67,819	78,308
	CYFANSWM	70,025	34,058	104,083	112,694

Mae'r gyllideb o £104.083m yn cefnogi cyflawniad blaenoriaethau'r Sector, Ardaloedd Mentor a Masnach a Mewnfuddsoddi. Mae dadansoddiad manwl o'r gweithgareddau yn ôl Llinellau Gwariant yn y Gyllideb wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Mae cyllideb y Sectorau yn cynnwys dyraniad ar gyfer gweithgarwch piblinell o £39m i sicrhau bod cyllid ar gael i ymateb yn gyflym i brosiectau wrth iddynt gael eu datblygu.

Mae'r cynnydd o £32m yng nghyllideb gyfalaf 2014/15 ar gyfer y Sectorau yn adlewyrchu dyraniadau ychwanegol o gronfeydd a thrafodion ariannol fel a ganlyn:

1. £20m ar gyfer Cronfa Twf Economaidd Cymru Cyfnod 2 i fusnesau gydag anghenion cyllido dros £100,000 i ganolbwyntio ar greu swyddi newydd.
2. Cyllid trafodion ariannol o £12m i gefnogi mentrau datblygu economaidd i ddarparu cyllid i fusnesau a chefnogi eu twf,

allforion a chreu / diogelu swyddi. Mae cynlluniau manwl ar ddyraniad y cyllid hwn i gronfeydd presennol neu rai newydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd a chânt eu cyhoeddi yn y misoedd sydd i ddod.

4.4 Entrepreneuriaeth

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Entrepreneuri aeth a Gwybodaeth Fusnes	Refeniw	14,523	(1,425)	13,098	12,896

Mae'r gyllideb Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Fusnes o £13.098m yn cefnogi entrepreneuriaeth ieuencid, busnesau sy'n cychwyn, BBaChau a microfusnesau ac arferion busnes cyfrifol. Mae hefyd yn sicrhau bod cyngor busnes priodol a chadarn ar gael i'r sector cydfuddiannol a chydweithredol. Bydd arferion busnes cyfrifol yn hwyluso ymrwymadau corfforaethol o ran cyfrifoldeb cymdeithasol drwy ei gwneud hi'n ofynnol i fusnesau ymddwyn yn foesebol a chyfrannu'n gadarnhaol at y datblygiad economaidd.

Mae ailbroffilio cyllid o'r UE a chynnydd yng nghyfradd ymyrraeth y rhaglen Cychwyn Busnes wedi golygu bod angen £1.425m yn llai o gyllideb graidd yn 2014/15. Nid yw hyn yn effeithio dim ar gyflenwi gwasanaethau.

4.5 Gwyddoniaeth ac Arloesi

Maes y Rhaglen Wariant	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Gwyddoniaeth ac Arloesi	Refeniw	14,269	(1,067)	13,202	12,882
	Cyfalaf	3,613	8,366	11,979	2,979
	CYFANSWM	17,882	7,299	25,181	15,861

Mae'r £25.181m o gyllid yn cefnogi mentrau i gyflawni Strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru a'r Strategaeth Arloesi.

4.6 Gwyddoniaeth

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Gwyddoniaeth	Refeniw	2,882	428	3,310	3,234

	Cyfalaf	3,113	8,366	11,479	2,479
	CYFANSWM	5,995	8,794	14,789	5,713

Mae'r gyllideb yn cynnwys £5.539m o gyllid referniw a chyfalaf i gefnogi mentrau Sêr Cymru a'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Mae cyllid Sêr Cymru yn cyfrannu at gyfanswm ymrwymiad Llywodraeth Cymru (£50m) i'r rhaglen bum mlynedd hon, sy'n cael cymorth hefyd o'r cyllidebau lechyd ac Addysg. Mae'r Academi yn annog pobl ifanc i ymwneud â phynciau ym maes Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg.

I raddau helaeth, mae'r cynnydd yn y gyllideb gyfalaf yn adlewyrchu cronfeydd cyfalaf ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer y Parc Gwyddoniaeth yng nghyllideb derfynol 2013/14. Bydd cyllid referniw a chyfalaf o £9.25m tuag at Barc Gwyddoniaeth Menai (2013/14 £1m) yn darparu cyfleusterau i gefnogi'r gwaith o sefydlu cwmnïau newydd a datblygu cwmnïau presennol gan greu cyflogaeth a chyfleoedd.

4.7 Arloesi

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Arloesi	Refeniw	11,387	(1,495)	9,892	9,648
	Cyfalaf	500	0	500	500
	CYFANSWM	11,887	(1,495)	10,392	10,148

Dyrennir £10.392m i annog busnesau i fuddsoddi mewn arloesedd a datblygu cysylltiadau â'r byd academiaidd drwy Raglenni Arloesi ar gyfer Busnes, A4B a SMART Cymru. Prosiectau a gyllidir gan yr UE yw'r rhain i gyd. Mae £1.495m yn llai o gyllid craidd ar gael yn sgil aildrefnu cyllidebau o fewn y MEG ac adolygu'r ymrwymadau.

4.8 Digwyddiadau Mawr

Maes y Rhaglen Wariant	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Digwyddiadau Mawr	Refeniw	4,740	(284)	4,456	4,354
	CYFANSWM	4,740	(284)	4,456	4,354

Bydd y gyllideb o £4.456m ar gyfer Digwyddiadau Mawr yn cefnogi gwaith gyda ffederasiynau chwaraeon cenedlaethol, y DU ac yn rhyngwladol i sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau mawr yn cael eu cynnal yng Nghymru. Yn 2014, bydd y Bencampwriaeth Agored i Golffwyr Hŷn yn cael ei chynnal yng Nghymru am y tro cyntaf. Mae hefyd yn cefnogi ystod amrywiol o ddigwyddiadau diwylliannol yn cynnwys digwyddiadau wedi'u trefnu yng Nghymru, er enghraifft

Gŵyl Ryngwladol Adrodd Straeon Beyond the Border, Gŵyl Sŵn a Gŵyl Wakestock, a digwyddiadau diwylliannol rhyngwladol mawr megis WOMEX. Mae'r £0.284m o newid yn y gyllideb yn deillio o leihad wedi'i reoli yn unol ag ymrwymadau cyfredol.

4.9 Seilwaith

Maes y Rhaglen Wariant	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Seilwaith	Refeniw*	20,642	(1,196)	19,446	20,397
	Cyfalaf	36,456	(8000)	28,456	18,456
	CYFANSW M	57,098	(9,196)	47,902	38,853

*yn cynnwys DEL adnoddau anghyllidol o £1,309,000

Mae cyllideb 2014/15 o £47.902m yn darparu cymorth ar gyfer Seilwaith yn Gysylltiedig ag Eiddo, Seilwaith TGCh a phrosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru (a elwir hefyd yn Cyflymu Cymru).

4.10 Seilwaith TGCh

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Seilwaith TGCh	Refeniw*	8,326	(340)	7,986	8,386
	Cyfalaf	26,304	0	26,304	16,304
	CYFANSWM	34,630	(340)	34,290	24,690

*heb gynnwys DEL adnoddau anghyllidol o £1,309,000

Mae'r gyllideb o £34.290m tuag at y Seilwaith TGCh yn cefnogi nifer o brosiectau allweddol, yn cynnwys prosiect Cyflymu Cymru, Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PBSA) ac Allwedd Band Eang Cymru. Mae lleihad bychan o £0.34m yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd o £1.869m wrth gyflwyno prosiect Cyflymu Cymru wedi'i wrthbwysu gan £1.529m ar gyfer PBSA o Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Mae gwella rhwydweithiau telathrebu a sicrhau bod pob rhan o Gymru'n derbyn cyfleusterau band eang digonol i'w hanghenion economaidd yn un o saith blaenoriaeth lefel uchel ein Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae Seilwaith TGCh o safon uchel yn hollbwysig ar gyfer creu economi ddigidol ffyniannus a chystadleuol, a hybu twf, swyddi a chyfoeth.

Erbyn diwedd y prosiect Cyflymu Cymru, bydd cyfanswm y buddsoddiad oddeutu £425m, yn cynnwys £89.5m o Gyllid Datblygu Rhanbarthol Ewrop; £56.9m o gyllid Llywodraeth y DU; £28.6m o

gyllideb gyfalaf yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, £30m o gyllid o'r Cronfeydd Canolog a £220m o fuddsoddiad sector preifat.

Gweithgaredd sector cyhoeddus cydweithredol yw PSBA yn seiliedig ar fodel cydberchnogaeth gydweithredol. Ei amcan yw sicrhau cysylltedd effeithiol, effeithlon a fforddiadwy sy'n galluogi'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dinasyddion. Yn gyffredinol, mae PSBA wedi arbed tua 20% i sefydliadau o gymharu â'r prisiau a dalent yn flaenorol am rwydwaith annibynnol.

Mae cynllun newydd Allwedd Band Eang Cymru yn bwysig i weithrediad Strategaeth Cymru Ddigidol Llywodraeth Cymru sy'n cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau gwell, mwy cost-effeithiol a hygyrch i ddinasyddion. Nod y cynllun yw cynorthwyo busnesau, sefydliadau trydydd sector a chymunedau i wella cyflymder eu band eang.

4.11 Eiddo

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Eiddo	Refeniw	11,007	(856)	10,151	10,702
	Cyfalaf	10,152	(8,000)	2,152	2,152
	CYFANSWM	21,159	(8,856)	12,303	12,854

Mae Seilwaith yn Gysylltiedig ag Eiddo yn cynnwys rheoli a datblygu'r portffolio eiddo, gweithgarwch adfer tir a chynigion eiddo i fusnesau. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau sector a gofodol o fewn yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Mae'r lleihad o £0.856m yn y gyllideb refeniw yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd wrth reoli'r portffolio sy'n codi o adolygiad o'r trefniadau partneriaeth er mwyn sicrhau arbedion hirdymor. Mae'r lleihad yn y gyllideb gyfalaf yn adlewyrchu dyraniad penodol o £8m a wnaed yn 2013/14 am dir ar gyfer mentrau datblygu (gan ddefnyddio model tebyg i un Melin Elái).

4.12 Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol

Maes y Rhaglen Wariant	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Strategaeth a Rhaglenni	Refeniw	10,138	(725)	9,413	9,349
	Cyfalaf	59	9	68	79

Corfforaetho I	CYFANSWM	10,197	(716)	9,481	9,428
-------------------	-----------------	---------------	--------------	--------------	--------------

Mae cyllideb 2014/15 o £9.481m yn cefnogi'r cyllid craidd ar gyfer Cyllid Cymru, Marchnata, Rhaglen Her Iechyd Cymru, ad-daliadau i'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, a gweithgarwch cefnogi strategaeth. Mae hefyd yn cefnogi dadansoddiadau economaidd a datblygiadau deddfwriaethol sy'n tanategu nifer o benderfyniadau ynghylch gwariant.

4.13 Rhaglenni Corfforaethol

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Rhaglenni Corfforaethol	Refeniw	3,294	(147)	3,147	3,083
	Cyfalaf	59	9	68	79
	CYFANSWM	3,353	(138)	3,215	3,162

Mae'r lleihad o £0.147m yn y refeniw yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yng nghostau gweithredu'r gronfa ddata Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid drwy ail-gwmpasu rhaglenni adrannol TGCh craidd. Mae'r gyllideb gyfalaf yn cefnogi'r proffil ad-daliadau i'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

4.14 Marchnata

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Marchnata	Refeniw	2,815	0	2,815	2,815
	CYFANSWM	2,815	0	2,815	2,815

Mae marchnata'n cefnogi ymgyrchoedd a gweithgareddau allweddol i helpu cyfathrebu a llwyddiant rhaglenni a phrosiectau'r Adran. Mae'r mentrau'n arbennig o bwysig ar gyfer cyfathrebu cynigion i fusnesau a chefnogi datblygiad brand Cymru.

4.15 Cyllid Cymru

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Cyllid Cymru	Refeniw	3,500	(500)	3,000	3,000
	Cyfalaf	0	0	0	0
	CYFANSWM	3,500	(500)	3,000	3,000

Mae'r gyllideb hon yn rhoi grant gweithredu i Cyllid Cymru sy'n cefnogi'r broses o weinyddu cronfeydd buddsoddi ar gyfer busnesau. Mae'r grant gweithredu wedi gostwng £0.5m yn sgil nodi arbedion effeithlonrwydd gweithredol.

4.16 Rhaglenni Strategaeth

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedi g £'000	2015/16 Cynllunia u Dangosol £'000
Rhaglenni Strategaeth	Refeniw	529	(78)	451	451
	CYFANSW M	529	(78)	451	451

Mae'r gyllideb yn cefnogi dadansoddiadau economaidd ac ymgysylltiad strategol i lywio penderfyniadau ynghylch gwariant ar strategaethau allweddol a bydd y lleihad yn cael ei reoli'n unol â gofynion ymchwil.

5.0 TRAFNIDIAETH

Mae trafndiaeth yn hollbwysig er mwyn gwneud economi Cymru yn fwy cystadleuol a rhoi gwell mynediad at swyddi a gwasanaethau. Mae'r rhaglen fuddsoddi gyfredol ar gyfer trafndiaeth yn canolbwyntio ar wneud economi Cymru yn fwy cystadleuol. Yn ddi-os, mae system drafnidiaeth fforddiadwy, effeithiol ac effeithlon yn bwysig ar gyfer trechu tlodi ac mae'n anhepgor wrth weithredu ymyriadau a pholisïau ar gyfer twf a swyddi. Rydym yn parhau felly i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwelliannau mawr i'r seilwaith trafndiaeth, er enghraifft y gwelliannau ffordd ar yr A477 Sanclêr i Ros-goch; yr A470 yng Ngelligemlyn a Maes yr Helmau – Cross Foxes; A487 yng Nglandyfi, yr A465 Brynmawr i Dredegar, yr A487 Caernarfon – Bontnewydd a ffordd gyswllt Dwyrain Bae Caerdydd. Wrth gydnabod y rhan sydd i'r rheilffyrdd yn hyrwyddo twf economaidd a sicrhau mynediad ehangach at swyddi a gwasanaethau, rydym wedi dewis buddsoddi er mwyn gwella capasiti'r rhwydwaith, a hygyrchedd ac ansawdd gorsafoedd.

Mae'r dolenni i'r Datganiad Ysgrifenedig isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein blaenoriaethau ar gyfer y seilwaith trafndiaeth:

<http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/transport/?skip=1&lang=cy>

<http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/railpriorities/?skip=1&lang=cy>

Seiliwyd y datganiadau ar y blaenoriaethau cyfalaf ar asesiad o effaith economaidd cynlluniau arfaethedig. Gofynnwyd hefyd am farn grwpiau busnes er mwyn deall eu blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi.

Derbyniwyd y dylid cyflawni prosiectau sydd dan contract ar hyn o bryd yn ôl y bwriad a rhoddwyd blaenoriaeth i brosiectau a sicrhaodd gyllid arall, er enghraifft cyllid Ewropeaidd neu gyfraniad gan yr Adran Drafnidiaeth i brosiectau rheilffordd. I raddau helaeth, roedd y gwaith hwn yn cadarnhau'r blaenoriaethau a drefnwyd yn 2011 ond rhoddodd gyfle i ystyried opsiynau newydd mewn perthynas â'r M4, ffordd gyswllt Dwyrain Bae Caerdydd a gwaith ar fannau cyfyng.

Mae gan bob prosiect sy'n cael ei ddatblygu achos busnes manwl i'w gefnogi. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cyflawni prosiect ffordd yn galw am gynnal dilyniant o asesiadau, gwiriadau a chymeradwyaethau yn ôl egwyddorion PRINCE2 ar gamau allweddol o'r gwaith. Mae hyn yn cynnwys dilyn proses fonitro a gwerthuso sy'n cynnwys ymarfer rheolaeth ariannol ar wariant, asesu cydymffurfiaeth dechnegol ac sy'n sicrhau bod cronfeydd yn cael eu defnyddio i wireddu'r manteision disgwylidig.

Nod y weithdrefn hon yw arddangos ar bob cam allweddol fod yr amcanion a'r canlyniadau a ffurfiai achos busnes y prosiect yn mynd i gael eu cyflawni, neu os nad ydynt, yn rhoi'r dewis o ail-werthuso'r prosiect.

Fel prosiectau sy'n darparu gwell hygyrchedd ffordd, bydd yr amcanion yn cynnwys gwella diogelwch, amserau teithio dibynadwy a byrrach, trosglwyddo traffig i ffwrdd o amgylcheddau preswyl a sensitif, a chyflawni'r cyfan yn gynaliadwy ac o fewn y gyllideb.

Caiff y Cynllun Monitro a Gwerthuso ei sefydlu ar y cychwyn a'i gymhwysu drwy gydol y gwaith drwy adolygiadau ac adroddiadau rheolaidd, gwiriadau diwedd cam a dilyn y canllawiau ar gyfer y gweithdrefnau.

Wrth i'r gwaith dynnu at ei derfyn, cynhelir asesiadau allweddol:

- Yr Adroddiad Gateway Terfynol
- Adroddiad Cysoni Cost y Contract
- Adroddiad ar Effeithiolrwydd y Cynllun
- Adroddiad Diogelwch Ffordd Cam Tri

Caiff yr adroddiadau hyn eu cynnwys wedyn mewn Adroddiad Cwblhau Cynllun sy'n crynhoi Adroddiadau'r Camau Allweddol blaenorol ac sy'n cyfateb i adroddiad gwerthuso prosiectau ar ôl cychwyn (POPE) yr Asiantaeth Priffyrdd.

I roi sicrwydd y caiff yr ased newydd ei gynnal yn effeithiol, mae tîm y prosiect yn trosglwyddo casgliad cynhwysfawr o'r holl ddogfennau perthnasol ar ffurf ddigidol i'r tîm fydd yn gyfrifol am reoli a gweithredu'r ased newydd.

Yn ogystal, fel rhan o'r contract, ceir cyfnod ôl-ofal o bum mlynedd pan fydd y contractwr yn cynnal, trwsio ac ailosod y mesurau lliniarol hanfodol. Cofnodir llwyddiant, neu fethiant, y gwaith hwn.

Er mwyn gwerthuso effaith y cynllun ar yr economi ehangach, caiff adolygiad ei gomisiynu a llunnir adroddiad ar yr effeithiau, sy'n gallu bod yn eithaf sylweddol, yn enwedig am fod cyfran fawr o'r arian a wariwyd ar adeiladu'n dod o hyd i'w ffordd i mewn i'r economi leol

Caiff gweithdrefnau prosiectau a rhaglenni rheilffyrdd eu datblygu drwy ddefnyddio'r model Pum Achos Busnes, gyda phwyslais ar y gymhareb cost/budd a sicrhau'r enillion mwyaf ar fuddsoddiad. O'r herwydd, caiff adolygiadau *gateway* eu defnyddio i sicrhau bod y ffocws yn aros ar ddibenion yr achos busnes fel y'u cytunwyd.

Pan fo Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel yr asiant sy'n cyflawni'r gwaith, cwblheir pob gweithgarwch caffael drwy ddefnyddio meini prawf ansawdd/cost er mwyn sicrhau gwerth am arian yn ôl dibenion yr achos busnes a ffactorau llwyddiant critigol. Pan fo trydydd parti, er enghraifft Network Rail, yn gweithredu fel yr asiantaeth sy'n cyflawni'r gwaith, fel rheol byddai Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gytundebau rheoledig er mwyn lleihau risg.

Mae Byrddau Prosiect/Rhaglen yn rheoli'r gwaith o lywodraethu, yn monitro gweithgarwch caffael, a risg a pherfformiad ariannol, ac yn adolygu'r amcanion yn ôl dibenion yr achos busnes fel y'u cytunwyd.

Wrth werthuso'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, cynhyrchir bwletin ystadegol sy'n cael ei asesu'n barhaol. Rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o ddatblygu cynlluniau trafndiaeth yn y dyfodol.

5.1 Rhaglen ar gyfer Ymrwymadau'r Llywodraeth

Mae'r tabl yn Atodiad B yn mapio ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu yn ôl manylion y costau cysylltiedig.

5.2 Darpariaeth ar gyfer y ddeddfwriaeth

Wrth i'r gwaith ar Fil Teithio Llesol (Cymru) symud ymlaen, mae disgwyl i'r mapiau presennol gostio £352,300 i gychwyn yn 2014/15 (yn cynnwys datganiad cydymffurfio â'r gofynion cynllunio ac ymgynghori), yna £146,100 bob tair blynedd ar gyfer ailfapio. Mae disgwyl i'r mapiau rhwydwaith integredig gostio £400,000 dros y tair blynedd gyntaf, yna tua £44,000 bob tair blynedd ar gyfer ailfapio.

Pennir costau gwneud gwelliannau o un flwyddyn i'r llall yn ôl faint o'r gyllideb fydd ar gael. Bydd costau gwella darpariaeth cynlluniau ffyrdd newydd yn cael eu ffactoreiddio i mewn i gostau'r cynlluniau presennol.

Byddai'r gost amcangyfrifedig am newidiadau a wneir yng Ngham 3 yn £30,800 y flwyddyn.

Telir y costau hyn o'r gyllideb Cerdded a Beicio a'r cyllidebau strategol.

Caiff gwaith ar deithio llesol ei gydgyssylltu'n glòs ar draws y ddwy Adran ac mae cyllid ar gyfer teithio llesol i'w gael yn bennaf o'r portffolio. Mae swyddogion trafnidiaeth yn cefnogi'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon mewn perthynas â'r Bil ac mae un swyddog yn cynorthwyo'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i symud gwaith yn ei flaen ar hyrwyddo teithio llesol.

Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth yn y DU sy'n effeithio ar y gyllideb ar gyfer Trafnidiaeth.

5.3 Gwariant ataliol

Mae mesurau gwariant ataliol yn bwysig yn yr hirdymor ar gyfer cyflawni canlyniadau gwell. Wrth ystyried effaith rhaglenni a pholisïau tocynnau teithio rhatach, rheoli rhwydwaith a diogelwch ar y ffyrdd, mae modd clustnodi rhan sylweddol o'r gyllideb ar gyfer Trafnidiaeth fel gwariant ataliol.

Cynhaliwyd asesiad i bennu pa fanteision sydd i'r cynllun tocynnau teithio rhatach o safbwynt gwariant ataliol. Gwelodd hwn fod:

- £10.5 miliwn o fanteision iechyd a gofal cymdeithasol anuniongyrchol i'w cael o'r cynllun tocynnau teithio rhatach. Deilliai'r rhain o oedi cyn bod angen gofal preswyl wedi'i gyllido gan awdurdodau lleol am fod y cynllun tocynnau teithio rhatach yn hyrwyddo mwy o weithgarwch corfforol a mwy o ryngweithio cymdeithasol sy'n peri oedi cyn i ddementia ddatblygu. Hefyd, creai arbedion eraill i'r GIG drwy leihau nifer y cyflyrau amrywiol neu beri oedi cyn iddynt ddatblygu.
- Am bob £1 sy'n cael ei gwario ar docynnau teithio rhatach, arbedir tua 14c i'r cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Wrth ystyried gwerth am arian, mae'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn ddarostyngedig i'r cytundeb amlflwydd â gweithredwyr bysiau ac mae'r broses ar gyfer ymrwymo i gytundeb newydd yn galw am gadw at yr egwyddor dim elw net, dim colled net a profi'r gyfradd ad-daliadau.

5.4 Maes Awyr Caerdydd

Bydd cyllidebau trafnidiaeth yn cefnogi gwelliannau yn y dyfodol i Five Mile Lane sydd dan ystyriaeth er mwyn gwella'r seilwaith o gwmpas y Maes Awyr. Mae'r gyllideb ar gyfer cymorth referniw bysiau

yn cynnwys darparu £0.3m ar gyfer y gwasanaethau bws i'r Maes Awyr a ddechreuodd ar 1 Awst 2013.

Mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf yn gweithredu o dan gynllun busnes a gytunwyd â Chwmni Daliannol Llywodraeth Cymru. Caiff cynnydd ei fonitro drwy olrhain nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol megis cynnydd yn niferoedd y teithwyr, gwella profiad cwsmeriaid a gwella proffidioldeb.

6.0 CYLLID TRAFNIDIAETH MEYSYDD RHAGLENNI GWARIANT

O gymharu â 2013/14, ceir cynnydd o £56.926m yng nghyfanswm y gyllideb ar gyfer Trafnidiaeth yn 2014/15, yn cynnwys lleihad yn y referniw o £18.749m a chynnydd yn y cyfalaf o £75.675m.

	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2014/15 Newidiadau £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000	2015/16 Newidia dau £'000
Refeniw	325,719	306,970	(18,749)	300,441	(25,278)
Heb fod yn arian parod	108,691	108,691	0	108,691	0
Cyfalaf	220,674	296,349	75,675	308,149	87,475
Cyfanswm	655,084	712,010	56,926	717,281	62,197

6.1 Gweithrediadau Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd

Maes y Rhaglen Wariant	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Gweithrediadau Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd	Refeniw	65,521	(4,066)	61,455	60,307
	Cyfalaf	48,551	22,899	71,450	92,550
	CYFANSW M	114,072	18,833	132,905	152,857

Mae Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol gyfrifol am y Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd, un o asedau seilwaith pwysicaf Cymru. Mae'r rhwydwaith yn cefnogi llawer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd polisi, yn cynnwys yr economi, iechyd ac addysg ac mae'r gost o'i adnewyddu ar ôl dibrisiant dros £13 biliwn. Mae'n hanfodol felly bod cyllid digonol ar gael ar gyfer cynnal a chadw'r rhwydwaith i'w gadw mewn cyflwr da a chynnal y lefelau gwasanaeth sydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru i gyflawni ei dyletswyddau statudol o ran diogelwch a'i hamcanion polisi ehangach ar gyfer Cymru.

Mae'r gyllideb hon yn cyllido cyfalaf cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith ffyrdd presennol. Daw £15m o ddyraniadau cyfalaf

ychwanegol o'r cronfeydd canolog yn 2014/15 i gefnogi gwaith ar dwnelau Bryn-glas ar yr M4 (£10m ar gyfer prosiectau ailadeiladu, diogelwch ac atgyfnerthu'r lôn gerbydau) a thwnelau'r A55 (£5m ar gyfer atgyfnerthu'r ffordd a gwelliannau diogelwch). Mae'r twnelau'n rhan allweddol o rwydwaith trafniadaeth Gogledd a De Cymru sy'n tanategu datblygiad yr economi, twf a swyddi.

Hefyd, yn dilyn blaenoriaethau a nodwyd yn y datganiad ysgrifenedig, dyrannwyd £7.899m ar gyfer dileu manau cyfyng ar y rhwydwaith ffyrdd ac i gefnogi'r rhaglen i droi ffyrdd yn gefnffyrdd. Clustnodwyd Coridor yr M4, yr A465 a ffordd gyswllt Dwyrain Bae Caerdydd fel blaenoriaethau.

Amcangyfrifwyd y gellid sicrhau arbedion refeniw o £3.4m ar waith y rhwydwaith, er bod adolygiad manwl ar y gweill i sicrhau bod modd eu cyflawni gan effeithio cyn lleied â phosibl ar y gwaith. Hefyd, clustnodwyd lleihad ychwanegol o £0.666m yn y ddarpariaeth ar gyfer hawliadau gan drydydd parti.

6.2 Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig) – Heb fod yn Arian Parod

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig)	Refeniw	108,691	-	108,691	108,691
	CYFANSWM	108,691	-	108,691	108,691

Mae'r gyllideb hon yn cynnwys dibrisiant blynyddol y rhwydwaith cefnffyrdd.

6.3 Gwasanaethau Rheilffordd ac Awyr

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Gwasanaethau Rheilffordd ac Awyr	Refeniw	173,179	(9,211)	163,968	160,389
	CYFANSWM	173,179	(9,211)	163,968	160,389

Mae'r gyllideb yn cefnogi Masnachfaint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a'r Gwasanaethau Awyr oddi mewn i Gymru. Mae fforddiadwyedd Masnachfaint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn destun pryder yn yr hirdymor. Amcangyfrif cynnar o'r arbedion posibl yw'r lleihad o £9.21m, er y bydd gwireddu'r arbedion yn galw am grym

dipyn o drafod â darparwyr gwasanaethau a Llywodraeth y DU.

6.4 Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd

Cam Gweithred u	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd	Cyfalaf	109,916	41,850	151,766	152,166
	CYFANSWM	109,916	41,850	151,766	152,166

Mae'r gyllideb yn cyllido gwelliannau cyfalaf i ffyrdd a rheilffyrdd. Yn 2014/15, rydym yn dyrannu £97.2m ar gyfer blaenoriaethau yn y seilwaith ffyrdd a £54.6m tuag at brosiectau buddsoddi yn y rheilffyrdd. Mae'r cynnydd o £41.85m yn cynnwys £8.3m o ddyraniadau cyfalaf ychwanegol o'r cronfeydd canolog i gefnogi cynllun gorsaf reilffordd ac estyniad tref Glynebwy, a £18.9m i gefnogi prosiect Trafnidiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru. Yn ogystal, mae £14.65m o gyllid cyfalaf wedi'i ail-flaenoriaethu yng nghyllidebau presennol yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar gyfer Coridor yr M4, yr A465 a ffordd gyswllt Dwyrain Bae Caerdydd.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar wella'r M4 o amgylch Casnewydd i fynd i'r afael â phroblemau o ran capasiti a chydnerthedd ar 20 Medi 2013. Yn 2014/15, darperir £2.7m i gefnogi astudiaethau dichonoldeb sy'n codi o'r ymgynghoriad. Mae hwn yn welliant mawr ac mae'r trafodaethau'n parhau â Llywodraeth y DU ynglŷn â phwerau benthyg i gefnogi'r prosiect. Bydd sicrhau gwerth am arian yn ffocws allweddol wrth ddatblygu'r prosiect. Caiff hyn ei gyflawni drwy reolaeth dynn ar bob cam o ddatblygiad y prosiect a phwyslais cryf ar beirianeg gwerth. Mae arweinwyr busnes wedi bod yn gwbl glir mai gwella'r M4 o amgylch Casnewydd yw eu prif flaenoriaeth ar gyfer yr economi.

6.5 Gwella a Chynnal y Seilwaith Ffyrdd Lleol

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - Ffyrdd	Cyfalaf	13,667	0	13,667	13,667
	CYFANSWM	13,667	0	13,667	13,667

Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu cydran cyfalaf trafndiaeth y setliad llywodraeth leol. Ni ellir defnyddio'r cyllid hwn at unrhyw ddiben arall.

6.6 Teithio Cynaliadwy

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
Teithio Cynaliadwy	Refeniw	82,302	(4,998)	77,304	75,502
	Cyfalaf	41,640	10,926	52,566	42,866
	CYFANSWM	123,942	5,928	129,870	118,368

Mae'r gyllideb hon yn cefnogi buddsoddi mewn trafndiaeth integredig, cerdded a beicio, teithio llesol, tocynnau teithio rhatach, cardiau clyfar, a chyllid ar gyfer bysiau, rheilffyrdd a ffyrdd i wella canlyniadau trafndiaeth ar lefel ranbarthol a lleol drwy drefniadau grant sydd ar gael i awdurdodau lleol a thrwy'r Consortia Trafndiaeth Rhanbarthol.

Mae dyraniadau i gyllidebau penodol i'w gweld yn Llinellau Gwariant y Gyllideb yn Atodiad A. Aildrefnwyd y gyllidebau yn sgil blaenoriaethau a nodwyd yn y datganiad ysgrifenedig. Mae'r lleihad o £4.998m yn y refeniw ar draws y gyllideb teithio cynaliadwy wedi'i amcangyfrif, er bod adolygiadau manwl ar y gweill i sicrhau bod modd cyflawni'r rhain gan effeithio cyn lleied â phosibl ar y gwaith o'u cyflawni.

Mae'r gyllideb gyfalaf o £52.566m yn 2014/15 yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £9.8m o'r cronfeydd canolog ar gyfer mesurau sy'n gysylltiedig â phrosiect Trafndiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru.

Tocynnau Teithio Rhatach: Mae'r gyllideb yn dangos £61m o gyllid i'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn 2014/15. Mae'r awdurdodau lleol yn ychwanegu at y swm hwn. Dechreuwyd trafodaethau â'r diwydiant bysiau ac awdurdodau lleol ar hyd a gwerth y cyfnod nesaf o gymorth ariannol. Hyd nes y daw'r trafodaethau hynny i ben, ffigwr dangosol fydd hwn.

Roedd y diwydiant bysiau'n cydnabod ac yn croesawu'r cytundeb ariannu tair blynedd yn 2011. Rhoddodd sicrwydd a sefydlogrwydd iddynt a'u helpu i gynllunio ymlaen llaw. Bu'n ddefnyddiol wrth iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi, a bellach, mae'n debyg fod proffil y fflyd bysiau ledled Cymru yn well nag y bu erioed. Mae'r diwydiant bysiau ac awdurdodau lleol wedi darparu papurau ar y gwersi a ddysgwyd o'r cytundeb presennol i'n helpu i ystyried a thrafod cytundeb newydd.

Grant Gwasanaethau Trafndiaeth Rhanbarthol (RTSG): Daeth y Grant Gwasanaethau Trafndiaeth Leol a'r Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau i ben ar 31 Mawrth 2013 a daeth yr RTSG i

gymryd eu lle. Prif nod yr Adolygiad Cyllido Bysiau a gyflwynodd yr RTSG oedd sicrhau bod modd i deithwyr ledled Cymru edrych ymlaen at rwydwaith sefydlog a chynaliadwy, wedi'i gydgysylltu'n well â gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus eraill.

Gweinyddir yr RTSG gan y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n chwarae rhan allweddol yn datblygu Strategaethau Trafnidiaeth Gyhoeddus Rhanbarthol. Mae'r rhain yn nodi ac yn blaenoriaethu gwariant cyhoeddus i gefnogi gwasanaethau bws a thrafnidiaeth gymunedol sy'n ystyried anghenion grwpiau gwarchoddedig. Mae'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gweithio gyda gweithredwyr bysiau, Bus Users UK yng Nghymru, Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus ac eraill i weld pa rwydweithiau bws a thrafnidiaeth gymunedol sy'n mynd i wneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o'r RTSG newydd.

Un o brif nodweddion y trefniadau cyllido newydd yw'r rheidrwydd ar y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol i gynnal eu hasesiadau eu hunain o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn pennu effaith eu penderfyniadau ynglŷn â pha wasanaethau bws a thrafnidiaeth gyhoeddus i'w cefnogi.

Mae'r gyllideb yn cefnogi tri Swyddog Cydymffurfiaeth Bysiau wedi'u cyflogi gan Bus Users UK yng Nghymru. Maent yn monitro perfformiad gweithredwyr bysiau ac yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r Comisiynydd Traffig lle bo angen. Mae gan y Comisiynydd Traffig bwerau i ddirwyo gweithredwyr am fethu â darparu gwasanaethau cofrestredig neu hyd yn oed i ddiddymu eu trwydded i weithredu gwasanaethau bysiau.

Cyn cyflwyno'r RTSG, câi'r sector trafndiaeth gymunedol ei gefnogi drwy bennu bod yn rhaid gwario o leiaf 10% o'r Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol yn cynorthwyo'r sector. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012/13, roedd 10% o'r Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol yn £990,000 ond yn 2013/14, mae ein cymorth o dan y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn £2.5m. O dan y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol, rhagwelir y bydd 10% o'r cyllid a ddyrannwyd i'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gael i gefnogi gwasanaethau trafndiaeth gymunedol. Dyma fydd y targed yn 2014/15 hefyd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog i Strategaethau Rhwydweithiau Rhanbarthol y Consortia y bydd gofyn iddynt gynnig digon o gynlluniau trafndiaeth gymunedol o ansawdd da.

6.7 Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

Cam Gweithredu	Categori Gwariant	2013/14 Cyllideb Atodol £'000	Newid £'000	2014/15 Cyllideb Arfaethedig £'000	2015/16 Cynlluniau Dangosol £'000
----------------	-------------------	--	----------------	---	--

Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	Refeniw	4,717	(474)	4,243	4,243
	Cyfalaf	6,900	0	6,900	6,900
	CYFANSWM	11,617	(474)	11,143	11,143

Mae'r gyllideb yn cefnogi gwelliannau cyfalaf ar gyfer peirianeg diogelwch ar y ffyrdd, gwelliannau ar y rhwydweithiau cefnffyrdd a ffyrdd lleol. Mae hefyd yn cefnogi ymgysylltiad a threfniadau cyllido â phartneriaid allanol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn sicrhau lleihad yn nifer y damweiniau, gan ddefnyddio'r strwythurau llywodraethu diogelwch ar y ffyrdd i gefnogi gweithrediad y Cynllun Diogelwch ar y Ffyrdd. Mae'r Cynllun yn nodi ein strategaeth diogelwch ar y ffyrdd hyd at 2020. Llwyddwyd i dorri £0.474m oddi ar y gyllideb refeniw drwy arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn y trefniadau cyllido â sefydliadau partneriaeth.

Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Hydref 2013

Amser: 09:00 – 12:08

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_09_10_2013&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Nick Ramsay (Cadeirydd)
Byron Davies
Keith Davies
Rhun ap Iorwerth
Alun Ffred Jones
Eluned Parrott
Joyce Watson

Tystion:

Neil Buxton, Association of Community Rail Partnerships (ACoRP)
Yr Athro Stuart Cole, Wales Transport Research Centre, University of Glamorgan Business School
Keith Howard, Porterbrook
